CAERDYDD

# AM BYTH

## CYLCHLYTHUR

2019/20

## 9FED RHIFYN

## CYFLWYNIAD Y CYFARWYDDWR GWEITHREDOL

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o gylchlythyr Caerdydd AM BYTH. Fel y gwelwch dros yr ychydig dudalennau nesaf, rydym wedi bod yn brysur iawn yn cyflawni prosiectau o ansawdd ar eich rhan, ac yn ddiweddar enillom ein gwobr ryngwladol gyntaf (gweler tudalen 10) o ganlyniad i'n hymroddiad.

Un o'r prif broblemau y mae Caerdydd yn ei hwynebu, yn ogystal â threfi a dinasoedd eraill ledled y DU, yw ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn derbyn galwadau wrth fusnesau bob dydd bron yn gofyn am gymorth neu gyngor yn delio â'r heriau amrywiol a ddaw gyda hyn. Yn ddiweddar gwnaethom gyfarfod ag asiantaethau allweddol i dynnu sylw at bryderon y busnesau hyn ac rydym wedi cymryd cyfres o gamau i wella'r sefyllfa yn Heol Eglwys Fair, lle roedd y broblem yn arbennig o amlwg. Mae'r sefyllfa'n gwella, ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd.

Byddwn felly yn trefnu seminar i edrych ar gamau gweithredu cadarnhaol a fydd yn helpu busnesau i fynd i'r afael â'r achos sylfaenol a sicrhau nad yw twristiaid, trigolion lleol a gweithwyr yn dioddef o ymosodiadau llafar a chorfforol yng nghanol y ddinas.

Hefyd, dwi wrth fy modd o fod wedi cyfrannu at gyfarfod cyntaf y Bwrdd Cerddoriaeth ym mis Rhagfyr. Mae hwn yn grŵp o unigolion amlwg sydd am wneud Caerdydd yn 'Ddinas Gerdd' drwy gyflawni amrywiaeth o fentrau a phrosiectau i helpu i godi proffil y ddinas. Mae Caerdydd AM BYTH yn parhau i gefnogi gwyliau fel Sŵn a Tafwyl ac yn awyddus i weithio gydag eraill i wella'r cynnig diwylliannol a rhoi hwb i fasnach o ganlyniad.

Cofiwch roi gwybod i ni os gallwn ni eich helpu chi, eich cydweithwyr a'ch busnesau. Ry'n ni yma i chi!

*Adrian Field*

Adrian Field,
Cyfarwyddwr Gweithredol



# CROESAWU

## CAEREDIGRWYDD

Digartrefedd yw'r prif bryder i fusnesau Caerdydd o hyd ac felly, ym mis Medi, lansiodd Caerdydd AM BYTH Siarter Digartrefedd Caerdydd. Cafodd ei chreu ar y cyd â sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd, ac mae'n galluogi busnesau, ysgolion a phrifysgolion i ddod ynghyd i wneud gwahaniaeth.

Gallwch addo amser, cyflogaeth, sgiliau, profiad a gwasanaethau drwy'r wefan CAERedigrwydd, sef ein cronfa cymorth digartrefedd. Mae busnesau fel Neal's Yard, Martyn Prowel Solicitors a Jones the Barber i gyd wedi gwneud amrywiaeth o addewidion yn barod. Mae'r ymrwymiadau rydym eisoes wedi'u cael yn cynnwys treulio amser yn helpu pobl i integreiddio yn ôl i mewn i gymdeithas, hyfforddiant coginio i wella cyflogadwyedd a thorri gwallt am ddim i fagu hyder.

Ochr yn ochr â'r siarter, mae Caerdydd AM BYTH wedi gosod dau bwynt cyfrannu parhaol o flaen Llyfrgell Ganolog Caerdydd ac yng Nghanolfan Siopa Dewi Sant i barhau i godi arian i CAERedigrwydd. Bydd dyfais arall, sy'n cael ei chario â llaw, yn cael ei defnyddio ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr a bydd hefyd ar gael i fusnesau lleol i godi arian, felly rhowch wybod i ni os oes gennych ddiddordeb.

Ers lansio'r cynllun cyfrannu digyffwrdd y llynedd, mae'r gronfa wedi derbyn £11,404 mewn rhoddion gan ymwelwyr, trigolion, busnesau a sefydliadau hael yng Nghaerdydd. Mae 35 o grantiau wedi'u rhoi ar gyfer eitemau hanfodol fel cardiau adnabod, gwersi gyrru, dodrefn neu nwyddau gwyn, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol i helpu pobl ar eu taith i ffwrdd o ddigartrefedd.



Gallwch ddod o hyd i astudiaethau achos ar sianel YouTube Caerdydd AM BYTH a gwefan CAERedigrwydd i weld sut mae 100 y cant o'r arian sy'n cael ei godi yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i gefnogi pobl sy'n profi neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

# CABC

## Caerdydd AM BYTH a Drinkaware yn lansio cynllun diogelwch economi'r nos.

Mae Drinkaware, yr elusen addysg alcohol annibynnol, yn ail-lansio ei chynllun llwyddiannus Drinkaware Crew o dan enw newydd – Nightlife Crew – ac eisiau ehangu'r cynllun i amrywiaeth ehangach o leoliadau. Mae Caerdydd AM BYTH yn un o'r llefydd cyntaf yn y DU i gofrestru ar gyfer Nightlife Crew, a'r bwriad yw i'r cynllun hwn gael ei ymgorffori ym mentrau diogelwch nos presennol canol y ddinas a'u hategu.

**Mae Nightlife Criw ar gael fel pecyn cyflawn o bum modiwl hyfforddiant:**

- **Criw:** Hyfforddiant i aelodau penodol o staff mewn tafarn neu glwb nos, y mae eu rôl yn ymwneud â hyrwyddo amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol a chanfod a chefnogi cwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed
- **Criw Arweiniol:** Hyfforddiant i reolwyr a goruchwylwyr, gan eu galluogi i gefnogi cwsmeriaid
- **Criw Cymorth:** e-ddysgu i bob aelod o staff i godi ymwybyddiaeth o fregusrwydd pobl mewn lleoliadau
- **Criw Gwyliau:** hyfforddiant wedi'i addasu i aelodau penodol o staff i gefnogi pobl sy'n mynychu gwyliau
- **Criw Stryd:** hyfforddiant i wirfoddolwyr penodol mewn cymunedau lleol, gan eu helpu i gefnogi pobl ar y stryd a chreu amgylchedd diogelach

Bydd Caerdydd AM BYTH a Drinkaware yn cynnig y cwrs e-ddysgu Criw Cymorth i weithredwyr tafarndai, bariau a chlybiau nos sydd eisiau sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi i ganfod a delio â bregusrwydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Dylai aelodau Caerdydd AM BYTH sydd eisiau cael rhagor o wybodaeth am Nightlife Crew a'r modiwl e-ddysgu Criw Cymorth gysylltu â'n Rheolwr Lleihau Troseddau Busnes, Ian Tumelty yn **ian@forcardiff.com**



# DEISEB HEOL EGLWYS FAIR

Cyflwynodd busnesau yn Heol Eglwys Fair ddeiseb i Caerdydd AM BYTH, Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru oherwydd pryderon cynyddol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgarwch troseddol neu amheus a'u heffaith ar fasnach ac amodau masnachu. Mewn ymateb i'r ddeiseb, ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Adrian Field at y busnesau hynny i nodi'r camau y mae'r tîm wedi'u cymryd:

- Ariannodd Caerdydd AM BYTH batrolau ychwanegol gan Swyddogion yr Heddlu (yn aml mewn cuddwisg) yn Heol Eglwys Fair
- Mae Caerdydd AM BYTH wedi cyflogi swyddog i gasglu nodwyddau a chlirio sbwriel, baw, cardfwrdd wedi'i daflu, cwrlidau ac ati o eiddo preifat
- Pan ar ddyletswydd, bydd Cenhadon Caerdydd AM BYTH, ar gais, yn e-bostio 101 ar eich rhan, ond gallwch hefyd wneud hyn eich hun drwy e-bostio **publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk**
- Ein rhif symudol dyletswydd, os oes ei angen arnoch, yw **07983 311723**, ac rydym yn eich annog yn gryf i roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol/amheus
- Mae Caerdydd AM BYTH wedi cynnig cyfrannu at y gwaith o adnewyddu gorsaf heddlu symudol Heddlu De Cymru i gynyddu presenoldeb yr heddlu'n sylweddol mewn ardaloedd poblogaidd fel Heol Eglwys Fair a Heol-y-Frenhines

Rydym am glywed gan ein haelodau am y gwahaniaeth mae'r camau hyn yn eu gwneud.

Rhowch wybod i ni dros e-bost yn **info@forcardiff.com** neu ffoniwch **02920314770**.

# LOBÏO DIGARTREFEDD CENEDLAETHOL

Mae'r Rheolwr Prosiectau, Emily Cotterill wedi bod yn arwain ymgyrch genedlaethol ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes (AGBau) i roi pwysau ar lywodraeth y DU am newid systemig i fynd i'r afael â'r problemau sy'n achosi cysgu ar y stryd.

Ym mis Rhagfyr, adolygodd Emily faniffestos pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol mewn perthynas â chysgu ar y stryd a digartrefedd, fel llwyfan i lansio ei gwaith gyda'r Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd. Mae'r llywodraeth Geidwadol newydd wedi addo yn ei maniffesto i roi diwedd ar gysgu ar y stryd erbyn diwedd y tymor seneddol hwn, a bydd Emily'n gweithio gydag AGBau eraill a'n cyrff diwydiannol i sicrhau bod y llywodraeth yn cymryd y mater mor ddifrif ag yr honnwyd yn wreiddiol.

# Y DIWEDDARAF AM Y TIMAU

## CENHADON

Wedi rhoi **699** o gyfarwyddiadau

Wedi patrolio **1,864** o filltiroedd

Wedi ymweld â **1,398** o fusnesau

Wedi rhoi Cymorth Cyntaf **53** gwaith

Wedi atgyfeirio **11** o bobl fregus at y tîm allgymorth

## TÎM GLANHAU

Gwaredwyd **5,984** darn o wm cnoi

Gwaredu **126** tag graffiti

Glanhawyd **36,218m²**

Defnyddiwyd **10** galwyn o baent

Defnyddiwyd **25.5** galwyn o ddiaroglydd

Defnyddiwyd **7** galwyn o gel ysbryd

## MARSIALIAID NOS

**90493**

**Cyfanswm** y bobl helpwyd

**GORSAF TACSI**

| | |
|---|---|
| House of Fraser | 16,968 |
| Stryd Wood | 20,316 |
| Lôn y Felin | 41,375 |
| Heol y Brodyr Llwydion | 11,834 |

## STREET PASTORS

Patroliodd **60** o Fugeiliaid Stryd ardaloedd bywyd nos poblogaidd yng Nghaerdydd **110** gwaith dros **3,204** awr yn 2019. Maent wedi codi **4,512** o boteli a gwydrau oddi ar y stryd a rhoi **1,324** potel o ddŵr i bobl yr oedd angen eu hydradu. Mae'r Bugeiliaid Stryd hefyd wedi helpu **1,345** o bobl ar noson allan a dosbarthu **1,118** pâr o fflip-fflops i wneud y daith adref yn fwy cyfforddus i bobl. Cafodd **397** o bobl eu cludo i'r Ganolfan Triniaeth Alcohol am gymorth.

# HYD – RHAG 2019

## HEDDLU

Helpu i symud **18** o bebyll i atal tor-heddwch

Darparu mwy na **90** diwrnod o blismona ychwanegol

Cymryd alcohol oddi ar berson **16** gwaith

Gwneud **2** atgyfeiriad i'r tîm allgymorth

Patrolau targedig mewn **16** o ardaloedd gwahanol

Arestio **24** person

Cefnogi **2** berson â phroblemau iechyd meddwl

Ymweld â **40** o fusnesau

Mynychu **4** digwyddiad

# BYWIOG

## Y NADOLIG

Eleni, aeth hysbyseb deledu Caerdydd AM BYTH â'r gwylwyr ar daith hudol drwy'r ddinas i lansio'r Nadolig mewn steil. Gwelwyd ffigwr tywyll yn arwain teulu o gwmpas canol y ddinas, gyda'r stori'n cyrraedd anterth wrth iddyn nhw gyrraedd Castell Caerdydd a darganfod mai draig ydyw.

Roeddem am i'n hysbyseb ddod â hwyl yr ŵyl yn fyw, gyda thwist Cymreig, ac arddangos y gorau o Gaerdydd i ymwelwyr. Gwelwyd yr ymgyrch hysbysebu ar draws Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

Roedd y tŷ sinsir enfawr yn ôl yn 2019 hefyd, gyda Mr a Mrs Mun yn ychwanegiadau diddorol! Roedd y llecyn hun-lun hwn yn rhan o gystadleuaeth lle gallai pobl ennill cerdyn rhodd gwerth £100 gan Caerdydd AM BYTH. Cawson ni gannoedd o ymgeiswyr, a hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr hwyl.

Gwnaethom hefyd drawsnewid Caerdydd i mewn i galendr Adfent enfawr gyda 24 o ddrysau'n ymddangos mewn lleoliadau amrywiol ar draws y ddinas. Roedd pob drws yn datgelu antur newydd i Dwynwen y ddraig ddrygionus a chafodd y gwaith ei ddylunio gan Pete Fowler, artist o Gymru, sy'n fwyaf adnabyddus am ei waith celf i Super Furry Animals.

Yn ogystal â dod o hyd i Dwynwen, gallai ymwelwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau am ddim ar dri phenwythnos yn arwain at y Nadolig, megis:

- Ymweld â Dewi, y ddraig 7 troedfedd
- Gweithdy addurniadau'r Nadolig gyda'r artist Louise Evans
- Straeon dwyieithog gyda Tamar Williams
- Côr yn y Tŷ Sinsir
- Tafluniadau o Dwynwen y ddraig ar yr Hen Lyfrgell, o Erddi Sant Ioan

## OPERATION MISTLETOE

Dechreuodd Caerdydd AM BYTH ddathliadau'r Nadolig mewn modd amlasiantaethol yn 2019, gan weithio gyda Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru ar y fenter lwyddiannus Operation Mistletoe.

Gwnaethom ariannu tai bach symudol o'r 13eg i'r 15fed, yr 20fed i'r 23ain a'r 31ain Rhagfyr y tu allan i Tiger Tiger, y Theatr Newydd, y Brodordy, Heol Sant Ioan ac mewn dau leoliad ar Heol Eglwys Fair.

Gwnaeth y Marsialiaid Nos ymestyn eu horiau gwaith hefyd. Gwnaeth yr holl fentrau hyn gefnogi busnesau, eu gweithwyr a chwsmeriaid yn uniongyrchol dros gyfnod yr ŵyl a sicrhau bod pawb yn cael amser diogel a hwylus.

CAERDYDD
DINAS YR ARCÊD

Dathlodd mwy nag 80 o fusnesau annibynnol y Diwrnod Dinas yr Arcêd cyntaf erioed, gan ddenu 206,000 o ymwelwyr i Gaerdydd. Gwelwyd cynnydd o 6% yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â ffigurau'r llynedd, pan gynhaliwyd un o Gemau Rhyngwladol yr Hydref.

Dilynodd y diwrnod, a grëwyd gan Caerdydd AM BYTH, yr ymgyrch Dinas yr Arcêd yn 2018, a welodd bron i 10,000 o bleidleisiau'n cael eu bwrw gan y cyhoedd i enwi'r 10 busnes gorau yn arcedau hanesyddol Caerdydd.

Creodd busnesau gynigion arbennig a chynnal digwyddiadau, yn amrywio o deithiau o Gwr Morgan (a werthodd bob tocyn), marchnad Nadolig fach a sioe ffasiwn i dwrnamaint Mario Kart a noson o ddarllen barddoniaeth. I ychwanegu at y naws arbennig, trefnwyd cerddoriaeth a pherfformiadau byw gan Spillers Records, Polarity Coffee a'r label cerddoriaeth o Gaerdydd, PYST, gyda chefnogaeth Caerdydd AM BYTH.

Dywedodd busnesau fod Diwrnod Dinas yr Arcêd wedi bod yn llwyddiant, gyda rhai'n cyhoeddi eu bod wedi gweld 300 yn fwy o ymwelwyr ar y dydd, gyda chynnydd o hyd at 60% mewn gwerthiannau. O ganlyniad i'r adborth anhygoel o gadarnhaol, mae Caerdydd AM BYTH yn gobeithio cynnal Diwrnod Dinas yr Arcêd arall yn 2020.

Dywedodd Jo Roberts, perchennog Fabulous Welsh Cakes yn Arcêd y Castell:

**"Roedd Diwrnod Dinas yr Arcêd yn llwyddiant ysgubol. Fe werthon ni bob un o'n cacennau cri caramel hallt arbennig erbyn 1pm a chymryd 50% yn fwy o refeniw na'r dydd Sadwrn arferol. Roedd yr arcêd dan ei sang drwy'r dydd."**

Nid dim ond busnesau annibynnol yr arcêd gafodd hwb chwaith. Dywedodd canolfan siopa Dewi Sant mai hwn oedd diwrnod prysura'r flwyddyn iddyn nhw hefyd, sy'n dangos y fantais o gael grŵp o fusnesau annibynnol ochr yn ochr â manwerthwyr mwy o faint mewn dinas.

Yn ôl yr arolwg:

**BYDDAI 87% O FUSNESAU YN CYMRYD RHAN ETO**

**GWELODD 63% O FUSNESAU GYNNYDD MEWN GWERTHIANNAU**

**DISGRIFIODD 83% O FUSNESAU Y DIGWYDDIAD FEL 'DA IAWN' NEU 'WYCH'**

# Y CERDYN

Ers ei lansio ym mis Medi 2019, mae 40,000 o gardiau wedi'u dosbarthu i weithwyr ein haelod-fusnesau. Rydym wedi mwynhau gweithio gyda dros 100 o fusnesau i ddod â chynigion a digwyddiadau arbennig i ddeiliaid Y Cerdyn.

I gyflogwyr mwy o faint fel Admiral, Lloyds a Chymdeithas Adeiladu Principality, trefnwyd digwyddiadau cofrestru lle ymwelodd aelodau o'n tîm â swyddfeydd i ddosbarthu cardiau mewn pwynt casglu ac addysgu arbennig, gan ateb cwestiynau staff hefyd. Os oes gennych fwy na 100 o staff a'ch bod eisiau trefnu rhywbeth fel hyn i'ch cwmni, e-bostiwch ni yn **info@forcardiff.com** er mwyn i ni allu trefnu dyddiad.

**40,000**
wedi'u dosbarthu ers Medi 2019

**100+**
o fusnesau gyda chynigion arbennig

## BETH SYDD WEDI'I GYNLLUNIO AR GYFER 2020?

Rydym yn lansio cyfres o ddigwyddiadau arbennig i aelodau'r Cerdyn. Cadwch lygad ar ein e-newyddion a'n cyfryngau cymdeithasol i weld beth fydd ar gael. Rydym hefyd wedi lansio grŵp Facebook i aelodau'r Cerdyn. Cewch y newyddion diweddaraf am gynigion newydd a phresennol a chlywed am ddigwyddiadau aelodau-yn-unig cyn unrhyw un arall! Ewch i dudalen Facebook Caerdydd AM BYTH i ymuno â grŵp Y Cerdyn.

## CERDYN RHODD

Cafodd cerdyn rhodd Caerdydd AM BYTH ei fis gwerthu mwyaf llwyddiannus erioed yn Rhagfyr 2019, gyda chynnydd o 43% ar 2018. Cafodd 5% o'r gwerthiannau yn Rhagfyr eu rhoi i'r gronfa CAERedigrwydd i gefnogi pobl sy'n profi neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

A GIFT CARD FOR CARDIFF

## ARDDANGOSFA FLYNYDDOL

Ymatebwch i **andrew@forcardiff.com** gydag unrhyw ofynion hygyrchedd neu ddietegol.

# CADWCH Y DYDD YN RHYDD!

## 6ed Mehefin — Park Plaza — 6–8yh

# GWOBRAU

Cafodd Caerdydd AM BYTH ei gydnabod gan y Gymdeithas Canol Trefi Ryngwladol (IDA) yn ei 65ain Cynhadledd Flynyddol yn Baltimore, Maryland ym mis Hydref gyda Gwobr Ragoriaeth Cyflawniad Canol Tref am yr ymgyrch 'Dinas yr Arcêd'. Caerdydd AM BYTH oedd yr unig sefydliad y tu allan i UDA i ennill.

IDA yw'r prif sefydliad i weithwyr gofod trefol proffesiynol sy'n siapio a gweithredu ardaloedd deinamig mewn canol trefi ym mhedwar ban byd. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith rhagorol Caerdydd AM BYTH yn hyrwyddo a dathlu arcedau Caerdydd.

Dywedodd David Downey, Llywydd a Phrif Swyddog Gweithredol IDA:

**"Enillodd prosiect Caerdydd AM BYTH Wobr Ragoriaeth IDA am weithredu arfer gorau mewn modd unigryw mewn perthynas â rheoli gofod trefol. Mae'r ymgyrch Dinas yr Arcêd yn enghraifft glodwiw o reolaeth gofod lleol arbennig yn creu gwerth go iawn i'r ddinas, ac yn ymateb penigamp i her gymunedol."**

Enillodd Caerdydd AM BYTH y wobr 'Digwyddiad Gorau' yng Ngwobrau PRide CIPR am 'Dilyn y Daff' hefyd.

# DIGWYDDIAD PIANO BEETHOVEN

Eleni, bydd y byd yn dathlu 250 mlwyddiant genedigaeth Ludwig van Beethoven. Yng Nghaerdydd, mae'r gymuned cerddoriaeth glasurol wedi dod ynghyd i gyflwyno rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau cerddorol, bydd dathliadau Beethoven 250 Caerdydd hefyd yn cyflwyno Allweddi i'r Ddinas – llwybr trawiadol o bianos stryd wedi'u trawsnewid yn artistig, wedi'u hariannu gan Caerdydd AM BYTH.

Bydd casgliad wedi'i guradu o 12 piano yn cael ei osod mewn 12 o leoliadau gwahanol ledled canol y ddinas a gall y cyhoedd eu chwarae yn ystod Mai 2020. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn trawsnewid piano gael rhagor o wybodaeth yn **www.streetpianos.com**

# NODDI DIGWYDDIADAU

## IRIS

Mae Iris, gŵyl sy'n gysylltiedig â BAFTA, wedi'i henwi fel un o'r "50 o wyliau ffilm sydd werth y ffi fynediad" bedair gwaith gan MovieMaker Magazine. Mae'r ŵyl yn ymfalchïo mewn rhannu'r gorau o ffilmiau LGBT+ byd-eang yng Nghaerdydd bob mis Hydref. Mae Caerdydd AM BYTH wedi noddi Iris dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'r bartneriaeth yn mynd o nerth i nerth.

## Sŵn

Mae Sŵn yn ŵyl gerddoriaeth aml-leoliad sydd wedi ennill gwobrau lu ac sy'n dathlu a chefnogi cerddoriaeth o Gymru a thu hwnt. Mae Caerdydd AM BYTH wedi noddi Sŵn ers tair blynedd gan ein bod yn credu bod yr ŵyl yn cynyddu proffil Caerdydd yn genedlaethol a rhyngwladol ac yn hybu ein henw da fel dinas gerdd.

Roedd yr ŵyl eleni yn llwyddiant ysgubol gyda bron i £65,000 o docynnau'n cael eu gwerthu, 616 o berfformwyr, 3,707 o gefnogwyr (gyda 23% ohonynt yn dod o'r tu allan i Gymru) a 10 o leoliadau dros 12 llwyfan.

Cyrhaeddodd gwahanol ddeunydd yr ŵyl dros 6.3 miliwn o bobl i gyd, gan gynnwys drwy'r Guardian a'r BBC, sy'n gynnydd o 37% ar 2018. Yn fwyaf trawiadol, cafodd yr ŵyl effaith economaidd o **£244,840** drwy wariant gwylwyr a chefnogwyr ar drafnidiaeth, bwyd, diod, siopa a llety – tipyn o gamp i ŵyl 3 diwrnod o hyd.

## Cyhoeddiad Tafwyl

Mae Caerdydd AM BYTH yn falch o gyhoeddi ein cefnogaeth barhaus i Tafwyl fel prif noddwr 2020. Eleni, bydd Tafwyl yn cynyddu ei chapasiti gan 8,000 gan symud i leoliad newydd ym Mharc Bute a chroesawu partneriaid newydd fel Trafnidiaeth Cymru a GIG Caerdydd a'r Fro. Bydd y rhaglen yn ehangu i gynnwys comedi, coginio a digwyddiadau llenyddol, ac ardal well ar gyfer gweithgareddau plant.

Bydd Caerdydd AM BYTH hefyd yn gweithio gyda'r tîm i gydlynu gweithgareddau ymylol i sicrhau bod Caerdydd i gyd yn cael y cyfle i fanteisio ar yr ŵyl. Tanysgrifiwch i'n e-gylchlythyr drwy'r wefan a dilynwch ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau!

# IONAWR JWRASIG YN DIPPY CRAFT CAFÉ

Roedd Dippy'r Dinosor ar ddangos yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd o fis Hydref i fis Ionawr, y 6ed lleoliad ar daith o 8 sydd bellach wedi denu 1.5 miliwn o bobl ar draws y DU.

Denodd y daith filoedd o bobl i'r amgueddfa i weld y cast dinosor trawiadol, gan helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr ac annog teuluoedd i ddarganfod natur ar garreg eu drws.

**Mae Dippy ar Daith:** Antur Hanes Natur yn cael ei chyflwyno i ymwelwyr ledled y DU gan yr Amgueddfa Astudiaethau Natur, ac roedd Caerdydd AM BYTH eisiau cefnogi Dippy fis diwethaf drwy greu rhaglen o adloniant ar draws pob penwythnos ym mis Ionawr.

Gweithiodd Caerdydd AM BYTH mewn partneriaeth â Dewi Sant i gyflwyno crefftau addysgiadol perthnasol AM DDIM i blant y ddinas, gan gynnwys sesiynau i blant ag awtistiaeth. Cymerodd dros 2000 o bobl ran, a hoffem ddiolch i bawb a alwodd draw.

# LLWYBR MODEL BRICS TEGAN NICK JR.

Mae Patrôl Pawennau, Blaze a'r Peiriannau Anghenfil, Shimmer a Shine ac Abby Hatcher yn dod i ganol dinas Caerdydd ar ffurf brics tegan. Bydd ymwelwyr yn gallu gweld 15 model brics anhygoel o'u hoff gymeriadau ac o sioeau poblogaidd Nick Jr. Mae Caerdydd AM BYTH wedi sicrhau taith y llwybr brics i Gymru rhwng 4 a 19 O Ebrill, dros wyliau'r Pasg. Mae ymwelwyr mewn lleoliadau eraill wedi cael cyfanswm o ddegau o filoedd o bobl yn dilyn y llwybr, ac rydym yn rhagweld yr un nifer yn ymweld â Chaerdydd.

Bydd gan bob un o'r 15 model daflen ffeithiau hwyliog, a gall cwsmeriaid sganio'r codau QR i weld fideos y tu ôl i'r llenni'r cymeriadau. Byddwn hefyd yn cynnal cwis llwybrau a map ym mhob lleoliad.

Mae angen 15 lleoliad ar gyfer y cymeriadau. Os oes gan eich busnes ddiddordeb mewn cynnal un o'r modelau neu roi gwobr am gwis y llwybr, anfonwch e-bost at ein Pennaeth Marchnata a chyfathrebu carolyn@forcardiff.com neu gofynnwch i un o'r tîm llysgenhadon am fwy o wybodaeth.

Bydd lleoliadau a gwobrau'n cael eu hyrwyddo ar draws yr holl ddeunydd marchnata a'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a phob ymgeisydd yn y gystadleuaeth.

© 2020 Viacom International Inc. All Rights Reserved. PAW Patrol: © 2020 Spin Master. Copyright © Brick Live Group Limited. All rights reserved. Brick Live Group Limited is an independent producer of BRICKLIVE and is not associated with The LEGO Group. LEGO® is a trademark of LEGO Juris A/S.

# DYLANWADOL

## PRYNU CYFRYNGAU

### YMGYRCH 4 WYTHNOS
(Cost 10 bws)

Ochr bws

Cefn bws

| | CYFRADD | EIN PRIS | CYNHYRCHIAD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **OCHR BWS X2** | £6,600 | £1,900 | £600 | **£2,500** |
| **CEFN BWS** | £2,910 | £1,290 | £210 | **£1,500** |
| **CYFANSWM Y GOST AM YMGYRCH 4 WYTHNOS** (gan gynnwys y ddau gyfrwng) | £9,510 | £2,690 | £810 | **£3,500** |

### CHWE DOLEN DIGIDOL
(Cost wyth safle)

Chwe dolen

| | CYFRADD | EIN PRIS | CYNHYRCHIAD |
|---|---|---|---|
| **1 WYTHNOS** (tua 19,200 o ymddangosiadau) | £6,600 | **£1,900** | £600 |
| **2 WYTHNOS** (approx. 38,400 plays) | £2,910 | **£1,290** | £210 |

Caerdydd AM BYTH yw'r AGB gyntaf yn y DU i gynnig gostyngiad ar gyfryngau i aelodau. Yn 2019, mwynhaom weithio gyda busnesau amrywiol, gan gynnwys Shop Rugby, yr Amgueddfa Genedlaethol a Theatr y Sherman. Mae digon o le ar gael yn 2020, felly beth am achub y blaen ar y lleill ac archebu amser marchnata ar gyfer yr amseroedd prysuraf? E-bostiwch Emily i gael rhagor o wybodaeth yn **emily@forcardiff.com**

## GWOBRAU SIOPA CUDD A GWASANAETH CWSMERIAID

Cofrestrodd dros 60 o aelodau i gael eu busnesau wedi'u gwerthuso yng Ngwobrau Siopa Cudd a Gwasanaeth Cwsmeriaid 2019. Rydym yn falch o gyhoeddi enillwyr y categorïau, fel a ganlyn:

- **Tafarndai a Bariau:** Live Lounge
- **Lleoliad Adloniant:** Live Lounge
- **Caffis a Siopau Coffi:** 39 Desserts
- **Gwasanaethau:** Ultralase
- **Busnes Annibynnol:** Bernsteins
- **Manwerthu Ffasiwn:** Ann Summers
- **Bwyty:** Turtle Bay
- **Manwerthu Cyffredinol:** Ernest Jones
- **Gwestai a Llety:** The Angel Hotel

Cafodd yr holl enillwyr gyfle i arddangos eu busnes ar Cardiff TV, potel o prosecco a thlws. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran ac i'r bobl a ymunodd â ni yn y derbyniad diodydd yn Be At One ar ei newydd wedd.

## HYFFORDDIANT HYD – RHAG 2019

Rydym wedi gwneud newidiadau i'n system archebu i gynyddu presenoldeb ar gyrsiau a galluogi mwy o fusnesau i gael budd o hyfforddiant wedi'i ariannu. Mae ein hamserlen hyfforddiant nawr ar gael yn adran aelodau ein gwefan ac mae angen i fusnesau gwblhau ffurflen archebu a derbyn ein telerau ac amodau newydd i gadw eu lle. Mae ffurflenni archebu ar gael yn yr adran aelodau neu drwy e-bostio **andrew@forcardiff.com**

Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael i bob busnes, ac rydym wedi cyflwyno ffi ganslo i'r rheini sy'n canslo lai na 3 diwrnod gwaith cyn cwrs. E-bostiwch **emma@forcardiff.com** i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i'n system archebu.

**Cymorth Cyntaf**
53

**Diogelwch Bwyd**
9

**Diogelwch Tân**
9

**Rheoli Gwrthdaro**
12

**Ymwybyddiaeth o Derfysgaeth**
34

**Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl**
19

Nifer y bobl sydd wedi'u hyfforddi y chwarter hwn:

**Cyfanswm: 136**
**Gwerth: £6,575.43**

## HYFFORDDIANT CYMORTH CYNTAF IECHYD MEDDWL

Rydym wedi gwneud Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn fwy hygyrch i fusnesau drwy ariannu cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn rhannol. Mae hyn yn golygu mai dim ond 50% o ffi'r cwrs y mae cynrychiolwyr yn ei dalu, sef £55 y pen. Mae Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn gwrs deuddydd ardystiedig sydd wedi'i deilwra i'r byd corfforaethol gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Mae'r cwrs yn rhoi'r sgiliau i gyfranogwyr gydnabod pan allai fod angen cymorth ar rywun, a sut a ble i'w gyfeirio at gymorth. Cysylltwch â **andrew@forcardiff.com** i gael rhagor o wybodaeth.

# GWNEUD Y MWYAF O'CH AELODAETH


info@forcardiff.com
forcardiff.com
02920314770

@FOR_Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
@forcardiff